**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

# COFNODION CYFARFOD 8 GORFFENNAF, 5.30-7.00, YSTAFELL GYNADLEDDA 4B

**Yn bresennol:**
Y Llywydd
Lorraine Barrett AC (Llafur)
Peter Black AC (Democratiaid Rhyddfrydol)
Chris Franks AC (Plaid Cymru)
William Graham AC (Ceidwadwyr)

**Swyddogion yn bresennol:**
Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc)
Dianne Bevan (Prif Swyddog Gweithredol)
Keith Bush (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfrethiol)
Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad)
Craig Stephenson (Pennaeth Uned Corfforaethol)
Cerys Gage (Ysgrifenyddiaeth)
Steve O'Donoghue (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol) Eitem 2 – Blaenoriaethau Strategol a Chyllideb 2009/10
Non Gwilym (Pennaeth Cyfathrebu Allanol) Eitem 3 – Gwella Dealltwriaeth y Cyhoedd drwy Frandio'r Cynulliad

**Ymgynghorwyr annibynnol:**
Mair Barnes
Robert Pickard

**Ymddiheuriadau:**
Aled Eirug (Ymgynghorydd Cyfansoddiadol)

**Arsylwyr:**
Dim

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf:**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai y tu allan i'r cyfarfod.

**Materion yn codi:**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatgan buddiannau unigol. Lle bynnag yr oedd y Comisiwn yn ystyried materion a oedd yn effeithio ar Aelodau Cynulliad, mae'r canlyniadau yn berthnasol yn eglur i'r Comisiynwyr fel Aelodau Cynulliad.

**Eitem 1 – Materion sy'n Effeithio ar Aelodau Cynulliad**

**Panel Annibynnol i adolygu cymorth i Aelodau Cynulliad**

Rhoddodd Claire Clancy adroddiad llafar ar y diweddaraf ar y panel i adolygu cymorth yn y dyfodol i Aelodau Cynulliad. Eglurodd o'r naw ymgeiswyr a gyfwelwyd yn ddiweddar, argymhellwyd tri ohonynt i fod yn rhan o'r panel annibynnol:

- Deep Sagar, a fu mewn amryw o rolau cadeirio ac yn gadeirydd Bwrdd NHS 24;
- Nigel Rudd, Prif Weithredwr Awdurdod Lleol Dwyrain Canolbarth Lloegr a
- Dafydd Wigley, cyn AC ac AS.

Nodwyd y byddai dau ymgeisydd pellach yn cael eu gwahodd i gael eu cyfweld o fewn y bythefnos nesaf ond na fyddai hyn yn oedi'r broses o sefydlu'r panel gan fod amser ychwanegol wedi ei ymgorffori yn y broses benodi. Ni phenodwyd y Cadeirydd hyd yma.

**Cyflog, lwfansau a chyfeiriadau Aelodau**

Rhoddodd Dianne Bevan adroddiad llafar ar y diweddaraf ar gyflog Aelodau, mewn ymateb i'r ddadl yn Nhy'r Cyffredin ar 3 Gorffennaf lle penderfynodd AS ar gynnydd o 2.25% yn eu cyflog. Dywedodd wrth y Comisiwn gan fod cyflogau AC yn gysylltiedig yn awtomatig â chyflog AS ar 82% pro rata, byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn cymhwyso'r cynnydd 2.25% i gyflog Aelodau o 1 Ebrill 2008 ymlaen a byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn eu

cyflog mis Awst. Byddai nodyn yn cael ei anfon at bob Aelod yn rhoi gwybod iddynt am hyn.

Rhoddodd Keith Bush adroddiad llafar ar y diweddaraf ar ddatgelu cyfeiriadau ail gartrefi Aelodau yn dilyn dyfarniad diweddar yr Uchel Lys a'r ddadl yn Nhy'r Cyffredin ar 3 Gorffennaf. Dywedodd wrth y Comisiwn fod Llywodraeth y DU yn drafftio Gorchymyn i atal datgelu a'i fod wedi ysgrifennu at y Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau fod Aelodau Cynulliad yn cael eu trin yn gyfartal a'u cynnwys yn yr Offeryn Statudol. Byddai adroddiadau diweddaraf yn cael eu darparu er mwyn hysbysu Aelodau Cynulliad.

## <u>Eitem 2 – Materion Llywodraethu Corfforaethol</u>

### Papur 1A – Blaenoriaethau Strategol a Chyllideb 2009/10

Cyflwynodd William Graham y papur a ofynnai i Gomisiynwyr gytuno ar y blaenoriaethau arfaethedig a phenderfynu i ba raddau y dylid cynyddu'r gyllideb.

Ystyriwyd nifer o flaenoriaethau gan gynnwys y proiect I-Change yr oedd ei hyd a'i led yn parhau i gael ei ystyried. Cytunwyd ei fod yn bwysig fod y prosiect hwn yn derbyn cyllideb addas er mwyn sicrhau y gellid gwireddu manteision y newidiadau TGCh i Aelodau Cynulliad. Nododd y Comisiwn ei fod yn bwysig cofnodi manteision ac enillion effeithlonrwydd a allai ddod yn sgîl y prosiect ac y dylai hefyd sicrhau nad oedd unrhyw system newydd yn cyfyngu ar waith Aelodau Cynulliad.

Awgrymodd comisiwynwyr na ddylid cynnwys i-Change fel rhan o'r prif gynigion cyllideb nes bod ei hyd a'i led a'i gost wedi cael eu sefydlu'n llawn. Unwaith y byddai'r gwaith hwn wedi cael ei gyflawni, cytunwyd y gellid gwneud cynnig cyllideb atodol os byddai angen, gan ystyried unrhyw arbedion y gellid eu gwneud i helpu ariannu'r rhaglen.

Cyn gosod y gyllideb ddrafft ar 24 Medi, byddai mwy o waith yn cael ei gynnal i sicrhau fod y papur yn nodi mesurau rheoli perfformiad, effeithlonrwyddau ac arbedion cyfredol ac arfaethedig. Byddai papur pellach yn cael ei gylchredeg i Gomisynwyr ymlaen llaw. Cytunwyd hefyd y dylai'r Pwyllgor Cyllid fod yn rhan o'r broses yn gynnar.

Nodwyd y byddai ariannu y cynllun Operation Black Vote (OBV) yn y dyfodol yn ddibynnol ar werthuso'r cynllun a redodd rhwng Hydref 2007 ac Ebrill 2008. Yr oedd trafodaethau yn cael eu cynnal rhwng tîm Cydraddoldebau'r Cynulliad, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac OBV gyda'r bwriad o ddatblygu cynllun newydd ar lefel genedlaethol a lleol. Byddai'n debygol y byddai awdurdod peilot yn ehangu'r rhaglen i gwmpasu agweddau cydraddoldeb eraill yn cael ei ystyried. Unwaith y byddai

cynigion wedi cael eu hystyried byddai papur yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Comisiwn yn yr hydref.

**Gweithredu:** Y Tîm Cydraddoldebau i baratoi papur ar y rhaglen OBV yn y dyfodol. Y papur cyllideb ddrafft i'w gylchredeg i'r Comisiynwyr er mwyn iddynt roi sylwadau pellach arno cyn 24 Medi a byddai cyfarfod ar wahân yn cael ei drefnu pe byddai angen.

**Adroddiad Blynyddol 2007/08**

Cyflwynodd Craig Stephenson ddrafft bron-terfynol o adroddiad blynyddol cyntaf Comisiwn y Cynulliad ac eglurodd bod yr adroddiad yn adlewyrchu pwysigrwydd y cyraeddiadau yn ystod y flwyddyn gyntaf yn dilyn sefydlu Comisiwn y Cynulliad. Eglurodd y byddai'r adroddiad yn gwbl ddwyieithog ac ar gael ar-lein yn hytrach nag ar bapur. Byddai fersiwn sain ar gael hefyd. Eglurodd Craig fod yr adroddiad blynyddol wedi ein fframio o gwmpas ein nodau strategol ac arwyddocâd ein cyraeddiadau yn ein blwyddyn gyntaf. Roedd yn cynnwys chwe adran gyda dolenni byw i rannau eraill o'n safle rhyngrwyd er mwyn rhoi gwybodaeth fwy manwl i ddarllenwyr lle bo angen.

Ar y cyd â'r adroddiad blynyddol byddai taflen yn cael ei chyhoeddi yn crynhoi'r pwyntiau allweddol, a byddai hon ar gael i'r cyhoedd ym mhob digwyddiad cyhoeddus, yn nesgiau derbynfa'r Cynulliad ac ar gael i'r Aelodau pe baent eu hangen yn eu cymorthfeydd neu mewn swyddfeydd etholaeth.

Roedd gwaith ar yr adroddiad yn parhau i fynd rhagddo a byddai'n cael ei lansio unwaith bod y datganiad o'r cyfrifon wedi eu gosod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a fwriedwyd erbyn 16 Gorffennaf. Croesawodd y Comisiwn yr ymagwedd ar-lein a bu iddynt gymeradwyo'r adroddiad.

**Gweithredu:** Craig Stephenson i sicrhau y cwblheir yr adroddiad cyn toriad yr hâf.

**Papur 1B – Portffolios y Comisiynwyr**

Adolygodd y Comisiynwyr eu portffolios cyfredol yng ngoleuni'r flwyddyn gyntaf o weithredu. Roedd y comisiynwyr yn fodlon â'r gwaith a oedd yn gysylltiedig â'u cyfrifoldebau portffolio a mynegodd Peter Black ddiddordeb mewn materion cyfreithiol a chytunodd i arwain ar hyn yn ogystal â materion Rhyddid Gwybodaeth. Cytunodd y Llywydd i arwain ar gyfrifoldebau ar gyfer y panel adolygu annibynnol ar gymorth i Aelodau Cynulliad. Cytunodd y Comisiynwyr fod eu portffolios yn gweithio'n dda a bu iddynt bwysleisio'r manteision o gael sesiynau briffio rheolaidd gyda swyddogion i rannu syniadau a chyfathrebu safbwyntiau.

**<u>Eitem 3 – Materion Cyfathrebu</u>**

**Papur 2A – Gwella Dealltwriaeth y Cyhoedd drwy Gyfathrebu'n Well**

Cyflwynodd Non Gwilym gynnig i ddatblygu 'Maniffesto Brand' i wella cyfathrebu mewnol ac allanol. Pwysleiswyd pwysigrwydd adolygu'r iaith, terminoleg a sianelau cyfathrebu a ddefnyddir i wella brand y Cynulliad. Eglurwyd y byddai cyfres o weithdai rhanddeiliaid yn cael eu cynnal i ddatblygu gwerthoedd brand, negeseuon allweddol a brîff dylunio.

Cymeradwywyd y cynnig gan y Comisiwn a nododd bwysigrwydd sicrhau ymrwymiad gan Aelodau a staff i sicrhau gweithredu llwyddiannus, yn ogystal â'i roi ar brawf yn y farchnad yn gynnar yn y broses.

**<u>Eitem 4 – Ystadau</u>**

**Papur 3A – Strategaeth Rheoli Asedau**

Ystyriodd y Comisiwn y papur ar ddiben a chynnwys y strategaeth rheoli asedau a fyddai'n canolbwyntio ar y cychwyn ar dir, adeiladau'r Comisiwn a'u cynnwys a'u rheoli mewn ffordd gynaliadwy.

Croesawodd y Comisiwn y papur a chytunodd y dylid annog defnydd cynaliadwy o ynni ar draws ein hystâd, ac y dylid cynorthwyo gweithio o bell a gweithio o adref drwy gynyddu ein defnydd o dechnoleg. Cytunwyd hefyd y dylid ystyried hybu iechyd a lles yn ystod y broses o ddylunio swyddfeydd.

Holodd y Comisiwn am ddeiliadaeth gyfredol y Pierhead a chytunwyd y byddai eglurhad pellach ar y mater yn cael ei geisio.

Cytunodd y Comisiwn y dylai Dianne Bevan ystyried sut y gellid ymestyn y defnydd o Siambr Hywel fel cyfleuster cynadledda pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion addysgiadol.

**Gweithredu:** Dianne Bevan i egluro deiliadaeth y Pierhead ac ystyried defnydd ehangach o Siambr Hywel.

**<u>Eitem 5 – Adroddiad Bwrdd Rheoli i Gomisiwn y Cynulliad</u>**

Cyflwynodd Claire Clancy yr adroddiad, ac eglurodd y byddai rhagor o waith yn cael ei wneud yn ystod toriad yr hâf ar sut yr ydym yn cyfatherbu ag Aelodau Cynulliad am waith Comisiwn y Cynulliad. Byddai ystyriaeth yn cael ei roi i gynhyrchu papurau Comisiwn cryno a fyddai'n cynnwys crynodeb pennawd y gellid ei rannu gydag Aelodau Cynulliad.

Trafododd y Comisiwn adleoli'r siop o'r Pierhead i'w lleoliad newydd yn y Senedd. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei adolygu cyn bo hir ond y byddai'n mynd yn ei flaen fel y cynlluniwyd, gydag arwyddion clir i leihau unrhyw broblemau.

Ystyriodd y Comisiwn fwriad Eisteddfod yr Urdd i gynnal y digwyddiad ym Mae Caerdydd yn 2009 a'i effaith ar fynediad ymwelwyr i'n hadeiladau. Cytunwyd y dylem gynnal yr egwyddor o fynediad am ddim i unrhyw un sy'n dymuno ymweld â'r Senedd ac na ddylai unrhyw rwystrau corfforol nag ariannol atal mynediad.

**Gweithredu:** Claire Clancy i gylchredeg nodyn i Aelodau Cynulliad yn egluro rôl Comisiwn y Cynulliad.
Non Gwilym a Lorraine Barrett i gydgysylltu â'r Urdd ar safbwynt Comisiwn y Cynulliad.

**Eitem 6 – Materion i'w nodi**

Nododd y Comisiwn y papur ar Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn (papur 5A) a'r papur ar ryddhau gwybodaeth (papur 5C) a gylchredwyd tu allan i'r Pwyllgor.

**Ysgrifenyddiaeth**
**Dyddiad**